

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25ain Hydref 2016

Presennol -Hefin Edwards Cadeirydd, Menai Hughes, Guto Jones, Einion Edwards, John D Jones, Ffuon Williams. Alun Jones, Cyng Peter Lewis Cyng BS Conwy, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Prys Ellis, Helen Ellis, Ieuan Jones.
Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Fedi 2016.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Deallwyd nad oedd yr heddlu wedi galw yn yr ysgol ynglŷn â thraffig yn y bore/prynhawn. Y clerch i wneud ymholiadau.

Nodwyd bod Cyngor BS Conwy wedi cytuno i drefnu gosod gwaharddiad o 20mya gyferbyn a'r ysgol a hefyd mewn rhan o'r pentref, ond deallwyd bod disgwyliad i'r ysgol gyfrannu at y gost. Y clerch i wneud ymholiadau a oedd ysgolion eraill wedi cyfrannu.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd ateb gan Elwyn Williams nad oedd y Cyngor Sir yn barod i osod pont bren ar gyfer osgoi'r darn gwlyb ar y llwybr. Y clerch i wneud ymholiad pellach, tybed a oedd yn bosib codi lefel y llwybr gyda cherrig man i osgoi'r darn gwlyb.

[1.2] Dwr Cymru/ Byngalo'r Alwen/ Lluniau/Arteffactau

Y clerch i gysylltu gyda Mrs Arfona Evans.

[1.3] Coeden ar gyfer Bryn Hyfryd ,Maes Aled

Eglurodd y Cyng. Peter Lewis bod swyddog o'r Cyngor Sir wedi cadarnhau bod y coed ar gyfer Bryn Hyfryd a Maelor yn ddiogel.

[1.4] Warden y Ganolfan/Camerâu Cylch Agos

Gan nodi bod angen £721.00 ychwanegol i gyrraedd y cyfanswm sydd ei angen ar gyfer camerâu cylch agos. Penderfynwyd aros nes bydd gwybodaeth pellach ynglŷn cais gan y ganolfan am grant.

[1.5] Llythyr Ms Helen Williams/ Cais I brynu darn o Gae Chwarae, Cae Llwyd

Dywedodd y clerch nad oedd gair pellach gan Ms Helen Williams

[1.6] Llwybr o gyferbyn a'r Ysgol i groesffordd Cefn-Brith

Dywedodd y clerch nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth y Cyngor Sir I gais i gael wyneb caled ar y llwybr.

Y Brif Agenda

[1.7] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol

Cyfeiriodd y clerch at y sylwadau canlynol

[a] Nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu copi o lythyr penodi gyda'r archwilydd mewnol

[b] Y Broses Gyllideb- Er bod presept wedi ei osod ,ni wnaeth y cyngor waith monitro digonol ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol

[c] Er bod y presept wedi ei osod erbyn y dyddiad dyledus, ni wnaeth y ddogfen gymryd i ystyriaeth lefel y cronfeydd wrth gefn.

Penderfynwyd cymeradwyo'r adroddiad. Y clerch i weithredu'r argymhellion.

[1.8]Tai Gwag/Cartrefi Conwy.

Rhoddwyd sylw i ymholiad gan Gartrefi Conwy yn gofyn barn y Cyngor i ostwng yr oed ar gyfer gosod tai yn y gymuned o bum deg pump i bedwar deg. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cynnig gan y gallai hyn arwain at brinder tai fyddai ar gael i bobl hyn.

[1.9]Maes y Ffynnon

Deallwyd bod moduron yn parcio ar y ffordd yn arwain i mewn i Maes y Ffynnon ac yn achosi trafferthion i lorïau ayb sydd angen mynediad. Cytunodd y Cyng Peter Lewis i dynnu sylw'r Adran Priffyrdd i'r mater gyda golwg i osod llinellau melyn.

[2]Cau Iard y Cyngor yn y Pentref

Deallwyd bod y Cyngor Sir yn bwriadu cau iard y Cyngor, a mynegwyd pryder y byddai'n creu trafferthion yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, pan mae angen graenio ffordd Rhuthun a Brenig yn gynnar yn y boreau . Dywedodd y Cyng Peter Lewis bod ymgynghoriad i'w gynnal yn y lle cyntaf.

[2.1] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a]Cyngor BS Conwy/ Premiymau treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Nghymru.

[b]Cyngor BS Conwy Gwahoddiad i Wasanaeth Sul Dinesig y Cadeirydd

Cadeirydd _____